# PWYLLGOR CRAFFU STRYDLUN A PHEIRIANNEG

## (O Bell Trwy Teams)

**Aelodau sy'n Bresennol:** **Dydd Gwener, 21 Mai 2021**

| | |
|---|---|
| **Cadeirydd:** | **Cynghorydd R.W.Wood** |
| **Cynghorwyr**: | A.R.Aubrey, D.Keogh, A.McGrath, W.F.Griffiths, R.Davies, J.Hale a/ac S.Jones |
| **Swyddogion sy'n Bresennol:** | D.Griffiths, M.Roberts, N.Headon, C.Plowman, H.Hasan, S. Owen a/ac J Davies |
| **Gwahoddedigion y Cabinet:** | Cynghorwyr M.Harvey, A.Wingrave, A.Llewelyn, S.Lynch, S.Paddison a/ac S.Pursey |

---

1. **DATGANIADAU O FUDDIANNAU**

Y Cynghorydd Rosalyn Davies Parthed: Opsiynau dylunio ar gyfer adfer Tomen Cilmaengwyn uwchben Ysgol Gynradd Godre'r Graig gan ei bod yn Llywodraethwr yn Ysgol Gynradd Godre'r Graig.

2. **COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL**

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 26 Mawrth 2021.

3. **CRAFFU CYN PENDERFYNU**

Craffodd y Pwyllgor ar yr eitemau canlynol ar agenda Bwrdd y Cabinet

Mynediad i draeth Aberafan drwy'r ramp mynediad i'r llithrfa newydd ym Maes Parcio Rhodfa Scarlett

Derbyniodd yr aelodau adroddiad ynglŷn â mynediad i draeth Aberafan drwy'r ramp mynediad i'r llithrfa newydd ym maes parcio Rhodfa Scarlett.

Darparodd swyddogion drosolwg o'r adroddiad a ddosbarthwyd, a oedd yn cynnwys pedwar opsiwn gwahanol y gallai'r cyngor ystyried eu gweithredu, ynghyd â'r risgiau cysylltiedig; nodwyd mai opsiwn un ac opsiwn tri oedd yr opsiynau mwyaf addas, yn enwedig opsiwn un a oedd yn lleihau'r risgiau niferus sy'n gysylltiedig â defnyddio'r ramp. Ychwanegwyd bod swyddogion wedi derbyn rhywfaint o ohebiaeth gan y cyhoedd ynglŷn â chael mynediad drwy'r ramp, a byddai opsiwn tri yn caniatáu hynny; fodd bynnag, byddai hyn yn cynnwys ystyried y risgiau sy'n gysylltiedig â hyn a chynnal y mesurau perthnasol a restrir yn yr adroddiad a ddosbarthwyd, gan gynnwys gosod arwyddion a lleoedd parcio ychwanegol i'r anabl yn agos at y ramp.

Rhannodd Aelodau Lleol Gorllewin Sandfields a Dwyrain Sandfields, a oedd yn bresennol yn y cyfarfod, eu pryderon ynglŷn â'r opsiwn a argymhellir a'r materion hygyrchedd i draeth Aberafan; roedd nifer o'u preswylwyr hefyd wedi tynnu sylw at rai o'r pryderon hyn. Rhoddodd yr aelodau lleol hefyd eu barn ar yr opsiynau eraill a geir yn yr adroddiad a ddosbarthwyd a pham y dylid defnyddio'r ramp i gael mynediad i'r traeth.

Gan ystyried dyletswydd gofal y cyngor i'r cyhoedd a'i rwymedigaethau o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a deddfwriaeth berthnasol arall, dywedodd swyddogion na fyddent yn argymell agor y ramp at ddefnydd y cyhoedd gan nad oedd wedi'i gynllunio ar gyfer hyn; pe bai'r aelodau am ymchwilio i hyn fel opsiwn, nodwyd y byddai angen adroddiad ychwanegol ar y Pwyllgor.

Hysbyswyd yr aelodau mai’r rheswm pan na chaniatawyd agor y ramp i'r cyngor oedd oherwydd amod cynllunio, a'i fod yno i gynnal dulliau cadw bioamrywiaeth etc.; adeiladwyd y ramp i ddarparu mynediad ar gyfer gwaith amddiffyn yr arfordir ac i safon nad oedd yn cynnwys mynediad cyffredinol i'r cyhoedd. Fe'i cadwyd wedyn i ddarparu mynediad ac allanfa i'r blaendraeth ar gyfer glanhawyr traethau a mynediad brys yn unig. Lluniwyd yr opsiynau yn y cyd-destun hwn.

Cafwyd trafodaeth ynglŷn â'r amserlenni ar gyfer gweithredu opsiwn tri, a nodwyd y gellid gwneud cynnydd o fewn mis i chwe wythnos.

Mynegwyd pryderon ynglŷn â gadael y giât ar agor gan y gallai annog pobl i yrru i'r traeth, a fyddai'n effeithio ar ddiogelwch defnyddwyr eraill. Ar y llaw arall, nodwyd mai'r rampiau ar y traeth oedd yr unig ffordd o ddod â chychod hwylio etc. i'r traeth; roedd hwn yn gyfle i'r gymuned a gallai annog mwy o bobl i'w ddefnyddio.

Cynigiwyd ac eiliwyd diwygiad ffurfiol i'r argymhelliad yn yr adroddiad a ddosbarthwyd, gan newid yr argymhelliad o 'opsiwn un' i 'opsiwn tri'; yr oedd ei fanylion wedi'u cynnwys yn yr adroddiad.

Penderfynwyd bod y Pwyllgor yn cefnogi'r diwygiad i'w ystyried gan Fwrdd y Cabinet.

<u>Gorchymyn/gorchmynion Rheoleiddio Traffig:</u> <u>Cil-ffriw</u>

Darparwyd adroddiad ar orchymyn rheoleiddio traffig terfyn cyflymder 20 mya arfaethedig ym Mhentref Cil-ffriw yng Nghastell-nedd.

Hysbyswyd y Pwyllgor fod y cyngor wedi cael grant diogelwch ar y ffyrdd gan Lywodraeth Cymru yn 2020 i weithredu mesurau arafu traffig i leihau cyflymder, er enghraifft rampiau cyflymder; cafwyd llawer o wrthwynebiad i'r cynllun hwnnw gan y preswylwyr lleol. Fodd bynnag, tynnwyd sylw at y ffaith bod goryrru'n broblem sylweddol yn yr ardal, a dyna'r rheswm pam yr oedd Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r cynllun yn wreiddiol; roedd 85% o draffig yn teithio 38mya, a oedd yn peri pryder i'r adran a'r Rheolwr Diogelwch Ffyrdd.

Yn dilyn hyn, dywedwyd bod deiseb wedi'i chyflwyno gan y gymuned i wrthwynebu'r cynigion bryd hynny ac yn gofyn a ellid ystyried mesurau amgen o ran ceisio lleihau'r traffig yn yr ardal; wedi hynny, cafodd y Rheolwr Diogelwch Ffyrdd sgwrs bellach â Thimau Diogelwch Ffyrdd Llywodraeth Cymru a bu sôn eu bod yn mynd i ystyried cynlluniau peilot 20mya y gallai awdurdodau wneud cais amdanynt. Esboniwyd bod chwe chynllun peilot a oedd yn digwydd ar draws de Cymru ac roedd Cyngor Castell-nedd Port Talbot yn ddigon ffodus i lwyddo i wneud cais i gymryd rhan yn y peilot hwnnw, a gall bellach weithio gyda Llywodraeth Cymru a GoSafe i weithredu math gwahanol o fesur diogelwch ffyrdd yn yr ardal.

Yn amodol ar gymeradwyaeth Bwrdd y Cabinet, nodwyd y byddai swyddogion yn anfon tua 500 o lythyrau i'r gymuned leol, a bydd yr aelod lleol a'r Rheolwr Diogelwch Ffyrdd yn mynd i'r gymuned ac yn sicrhau eu bod ar gael yn ystod y cyfnod ymgynghori i hyrwyddo'r cynllun ac i drafod y cynigion gyda'r gymuned leol; byddai'r llythyrau a'r hysbyseb yn dechrau ar 1 Mehefin 2021.

Gofynnodd yr aelodau am fanylion o ran cost gychwynnol y prosiect cyfan, a dywedwyd ei bod oddeutu £72,000 eleni, a chyfanswm y grant oedd £140,000.

Gofynnwyd i swyddogion pam fod angen terfyn o 20mya mewn closydd tai bach. Cadarnhawyd bod angen i'r meini prawf o amgylch

y peilot gwmpasu ardal gymunedol gyfan a chydnabuwyd na fyddai unigolion yn teithio ar y cyflymder hwnnw yn rhai o'r ardaloedd; y ffordd fwydo a'r brif ffordd oedd y meysydd allweddol a oedd yn peri pryder. Tynnwyd sylw at y ffaith y byddai'r cynllun peilot hwn yn debygol o redeg am ddwy flynedd ledled Cymru mewn ardaloedd dewisol ac yna byddai'n llywio'r rhagflaenydd i derfyn diofyn cenedlaethol o 20mya yng Nghymru; nid yw o reidrwydd yn golygu y caiff ei gadw mewn lle, ond os bydd yn gweithio a bod y gymuned yn credu ei fod wedi bod yn fuddiol, yna byddai'n debygol o gael ei gadw. Ychwanegodd swyddogion y bydd yr holl ddata a gwybodaeth a gesglir o'r peilot yn cael eu rhoi i Lywodraeth Cymru a’u cynnwys mewn adolygiad ehangach ar y terfynau diofyn; Roedd Llywodraeth Cymru yn awyddus iawn i dynnu ffin o amgylch y gymuned gyfan yn hytrach na llwybrau prif ffyrdd unigol.

Gofynnwyd pam y dewiswyd ardal Cil-ffriw ar gyfer y peilot. Cadarnhaodd swyddogion eu bod wedi ystyried rhai ardaloedd eraill ar draws y Fwrdeistref Sirol, ond roedd rhai ffactorau wedi'u harwain at ddewis yr ardal benodol hon. Nodwyd bod Llywodraeth Cymru wedi dewis cymunedau o wahanol feintiau fel rhan o'r cynlluniau peilot; mewn rhannau eraill o Gymru, dewiswyd tref gyfan ac mewn rhannau eraill, megis cymunedau gwledig, roeddent wedi dewis dwy neu dair stryd. Dywedodd swyddogion fod Cil-ffriw yn gymuned mewn clwstwr canolig ei faint, gyda thua 500 o eiddo; roedd hyn yn cyd-fynd â'r cymysgedd o ddata yr oedd Llywodraeth Cymru yn ceisio'i gael i lywio'r adolygiad ehangach ar y terfyn cyflymder ar draws y wlad. Ychwanegwyd bod gan yr ardal broblemau diogelwch ar y ffyrdd ar hyn o bryd yr oedd angen mynd i'r afael â hwy. Tynnodd swyddogion sylw at y ffaith y cydnabuwyd mai dim ond rhywfaint o gapasiti ac adnoddau oedd ar gael; byddai llawer o'r gwaith yn cael ei gyflawni gan bartneriaeth GoSafe a byddai'r cyngor yn gwneud y gwaith peirianyddol, ond bydd llawer o'r gwaith hefyd yn cynnwys dadansoddi data a fyddai'n cael ei gwblhau y tu ôl i'r llenni.

Gofynnodd yr aelodau a fu unrhyw ddamweiniau ffyrdd yn yr ardal, a chadarnhawyd hynny; ni fyddai'r ardal wedi bodloni meini prawf i gael ei ystyried gan Lywodraeth Cymru os na chafwyd digon o dystiolaeth ffeithiol ynghylch hyn. Er mwyn bod yn gymwys ar gyfer y cais gwreiddiol, hysbyswyd yr aelodau bod angen tystiolaeth mewn perthynas â’r lefel cyflymder o'r wybodaeth data cyflymder gudd; byddai swyddogion a Llywodraeth Cymru hefyd wedi edrych ar ystadegau'r heddlu mewn perthynas â damweiniau fu bron a digwydd a damweiniau gyda mân anafiadau. Soniwyd na fu unrhyw

ddigwyddiadau mawr yn yr ardal lle bu marwolaeth. Cytunodd y swyddogion i rannu manylion y dystiolaeth gydag aelodau y tu allan i'r cyfarfod.

Yn dilyn craffu, roedd y pwyllgor yn gefnogol o'r cynigion i'w hystyried gan Fwrdd y Cabinet.

Opsiynau dylunio ar gyfer Adferiad Tomen Cilmaengwyn uwchben ysgol Gynradd Godre'r Graig

Cyflwynwyd adroddiad i'r aelodau a oedd yn cynnig dyfarnu gwaith i Earth Science Partnership i ymchwilio i opsiynau dylunio a chynhyrchu amcangyfrifon cyllideb ar gyfer gwaith sy'n gysylltiedig ag adfer Tomen Cilmaengwyn.

Cafwyd trafodaeth mewn perthynas â'r opsiynau adferol a nodir yn yr adroddiad a ddosbarthwyd, yn enwedig opsiwn tri, sef 'dymchwel adeilad Ysgol Gynradd Godre'r Graig ac ailddefnyddio'r safle er budd cymunedol'. Gofynnodd yr aelodau am eglurder ynghylch sut y gellid defnyddio'r safle er budd cymunedol os nad oedd y safle'n ddiogel i staff a disgyblion yn yr ysgol gynradd. Dywedodd swyddogion y byddai'r ymgynghorwyr yn cael y dasg o nodi a oedd unrhyw fanteision cymunedol addas ac y byddent yn rhoi adborth i swyddogion ar ôl eu cwblhau; ni fyddai'n debygol o olygu bod y safle'n cael ei ddatblygu ar gyfer tai neu neuaddau cymunedol, ond efallai y bydd manteision cymunedol gwyrdd eraill a allai fod yn briodol.

Gofynnwyd a oedd gan swyddogion amserlen ar gyfer  Earth Science Partnership (ESP) i gynnal yr astudiaeth ddichonoldeb. Hysbyswyd yr aelodau fod yr ymgynghorydd yn rhan o Fframwaith Rhanbarthol De Cymru a oedd wedi'i dendro'n ddiweddar, ac o fewn y fframwaith hwnnw gallai'r cyngor wneud dyfarniad cyflym yn amodol ar gymeradwyaeth Bwrdd y Cabinet; gellid cwblhau hyn ar ôl y cyfnod galw i mewn o dridiau. O ran yr amser a gymerir i gynnal yr astudiaeth, nodwyd bod yn rhaid i'r cyngor gynnal trafodaethau gydag ESP, ond roedd yn debygol y byddai'n cymryd oddeutu pedair i chwe wythnos i gwblhau'r astudiaeth.

Nodwyd yn yr adroddiad a ddosbarthwyd fod yr ESP wedi'i chomisiynu yn 2019 i ymchwilio i ddeunydd y domen a'r tirlithriad uwchben Ysgol Godre'r Graig; Gofynnodd yr aelodau am eglurder ynghylch pa dirlithriad yr oedd swyddogion yn cyfeirio ato. Nodwyd bod ymwybyddiaeth o dirlithriad Pant Teg, tirlithriad Tŷ Gwyn a'r hanes o amgylch ardal Godre'r Graig a Chilmaengwyn yn codi

pryderon; oherwydd y gweithgarwch daearegol diweddar ym Mhant Teg, edrychwyd yn fanylach ar ardal Godre'r Graig, yn enwedig o amgylch yr ysgol, gan gadw mewn cof yr adolygiad addysgol yn ardal y cwm. Hysbyswyd yr aelodau fod astudiaeth pen desg wedi'i chwblhau i ddechrau, a oedd yn tynnu sylw at rai pryderon; arweiniodd hyn at gwblhau gwaith profi a dadansoddi manylach, a arweiniodd yn anffodus at gau Ysgol Gynradd Godre'r Graig dros dro ar y pryd oherwydd y risgiau dan sylw yno a hanes yr ardal. Ychwanegwyd bod symudiad wedi'i nodi yn yr ardal ers cwblhau'r gwaith monitro; felly, roedd angen mwy o waith ymchwil.

Gofynnwyd pam nad oedd cael gwared ar y domen rwbel yn llwyr yn debygol o fod yn ffafriol, fel y nodir yn yr adroddiad a ddosbarthwyd. Dywedodd swyddogion y byddai unrhyw beth yn bosib o ran datrysiadau peirianyddol, ond y gallu corfforol i gyflawni'r gweithgaredd yw'r broblem; a'r ffaith hefyd fod angen ystyried amserlenni a chostau. Soniwyd bod swyddogion wedi gwneud rhai cyfrifiadau cychwynnol, yn fathemategol yn unig, yn seiliedig ar faint o ddeunydd y byddai angen ei dynnu oddi ar y safle; byddai hyn yn costio oddeutu £4miliwn ac nid oedd yn cynnwys llwybrau mynediad diogel i'r safle. Ychwanegwyd y byddai angen cerbydau llai i gwblhau'r gwaith hwn oherwydd natur y dopograffeg, felly gallai gymryd hyd at 18 mis i ddwy flynedd i dynnu'r holl ddeunydd oddi ar y safle ac i wneud y gwaith lliniaru y byddai ei angen.

Yn dilyn craffu, roedd y pwyllgor yn gefnogol o'r cynigion i'w hystyried gan Fwrdd y Cabinet.

## 4. **BLAENRAGLEN WAITH**

Nododd y pwyllgor y Blaenraglen Waith ar gyfer 2021/22.

**CADEIRYDD**